

## Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd	<b>Bethan Davies</b>
Dyddiad: Dydd Iau, 28 Ionawr 2016	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru">SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru</a>

---

**Yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2016, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42, penderfynodd y Pwyllgor gwrdd yn breifat ar gyfer eitem 1 y cyfarfod hwn.**

### **1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016–17: Ystyried adroddiad drafft**

(09.00 – 09.30)

(Tudalennau 1 – 41)

Papur 1 – Adroddiad drafft

Papur 2 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid (mewn perthynas ag addysg) – 18 Ionawr 2016

Papur 3 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid (mewn perthynas â thrafnidiaeth) – 18 Ionawr 2016

Papur 4 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc at y Gweinidog Addysg a Sgiliau – 19 Ionawr 2016

Papur 5 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd – 19 Ionawr 2016

Papur 6 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus – 22 Ionawr 2016

Papur 7 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol at y Prif Weinidog – 22 Ionawr 2016



## **Egwyl**

(09.30 – 09.40)

## **2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

(09.40)

## **3 Papurau i'w nodi**

(09.40)

(Tudalennau 42 – 47)

**Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y**

**Llywodraeth**

(Tudalen 49)

## **4 Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Gwaith craffu Cyfnod 2**

(09.40 – 15.00)

(Tudalennau 50 – 82)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, bydd y Pwyllgor yn gwaredu gwelliannau i'r Bil yn y drefn a ganlyn:

Adrannau: 2 – 34, 36 – 79, 35, 81 – 114, 80, 116 – 154, 115, 155 – 161, 162 – 168, 170 – 182, 169, 183 – 185, 186 – 193; Atodlen; Adran 1; Teitl hir.

### **Yn bresennol:**

Jane Hutt AC – Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Sean Bradley – Uwch-gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Richard Clarke – Rheolwr Prosiect Gweinyddu Trethi, Llywodraeth Cymru

### **Dogfennau ategol:**

Papur 8 – Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli

Papur 9 – Grwpio Gwelliannau

Papur 10 – Diben ac Effaith y Gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru – 18 Ionawr 2016

[Bil Casglu a Rheoli Trethi \(Cymru\), fel y'i cyflwynwyd](#) (383KB)

[Memorandwm Esboniadol](#) (1MB)

---

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Busnes

**National Assembly for Wales**  
Enterprise and Business Committee

---

Jocelyn Davies AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Ionawr 2016

Annwyl Jocelyn,

### **Craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2016-17**

Ar 14 Ionawr 2015, clywodd y Pwyllgor Menter a Busnes dystiolaeth gan Julie James, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, a swyddogion o'r Adran Addysg, ar ei phortffolio ei hun, ac ar bortffolio y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Roedd y Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw at dri maes pryder a gododd o'n gwaith craffu ar y rhannau addysg a sgiliau o'n cylch gwaith.

### **Effaith gostyngiadau cyllidebol ar gyllidebau Refeniw a Chostau Cynnal Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**

Roedd y Pwyllgor yn pryderu'n fawr am y newidiadau arfaethedig i'r cyllid ar gyfer y sector addysg uwch, a bydd yn gofyn am ragor o gyfleodd i graffu ar:

- y gostyngiad o £20m i refeniw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; ac
- y gostyngiad o £0.277m (-10%) i gostau cynnal Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae maint y toriadau hyn yn codi cwestiwn ynghylch a fydd y cyngor cyllido yn gallu cyflawni ei amcanion.

O ran y gostyngiadau arfaethedig i'r gyllideb refeniw addysg uwch, roedd y Pwyllgor yn ei chael hi'n anodd asesu effaith bosibl y toriadau heb ryw arwydd ynglŷn â'r blaenoriaethau y bydd y Gweinidog yn eu nodi yn ei lythyr cylch gwaith blynyddol i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch. Dywedwyd wrthym y bydd y Cyngor yn



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
SeneddBusnes@cynulliad.cymru  
www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes  
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
SeneddEcon@assembly.wales  
www.assembly.wales/SeneddEcon  
0300 200 6565

trafod y sefyllfa ddydd Gwener, 22 Ionawr, a bydd y Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth maes o law.

Mae'r Pwyllgor yn deall rôl annibynnol y cyngor cyllido, ond rhaid fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal rhywfaint o asesiadau effaith/risg cyn cynnig cymaint o ostyngiad i gyllid y Cyngor ar gyfer y sector. Felly, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl i'r Dirprwy Weinidog allu rhoi arwydd cliriach ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. (Blaenoriaethu)

Bydd y Pwyllgor yn gofyn i'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y blaenoriaethau y mae am i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru roi sylw iddynt.

Mae tystiolaeth gan y sector yn rhybuddio bod perygl difrifol iawn y bydd toriadau o ran cyllid yn effeithio'n anghymesur ar y ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser, ar waith ymchwil ac ar y pynciau drud.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymateb y Dirprwy Weinidog am flaenoriaethu'r ddarpariaeth ran-amser. Er, nodwn fod y Prif Weinidog wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol mai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol oedd yn cael blaenoriaeth y diwrnod cynt. O ystyried y gostyngiad ym maint y pot cyffredinol, mae'n ymddangos yn annhebygol y gall Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddiogelu blaenoriaethau lluosog yn llawn.

Mae'r dystiolaeth gan y sector Addysg Uwch yn tynnu sylw at bryderon penodol o ran cydraddoldeb, y bydd gostyngiadau i'r ddarpariaeth addysg uwch ran-amser yn cael effaith niweidiol ar ddysgwyr benywaidd a dysgwyr hŷn.

Nododd y Pwyllgor hefyd bryderon (fforddiadwyedd) am yr effaith a gaiff y toriadau ar gyllid ar gyfer:

- Ymchwil (QR) ac unrhyw niwed posibl i allu'r sector Addysg Uwch yng Nghymru i gystadlu am gyllid ymchwil allanol;
- Cyllid ar gyfer pynciau drud (fel meddygaeth, deintyddiaeth a chysiau Conservatoire) a'r effaith bosibl ar gysiau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) yn gyffredinol.
- Risg y bydd gostyngiadau o ran cyllid yn golygu bod sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn llai sefydlog mewn tablau cynghrair, gan ei gwneud yn anos i ddenu myfyrwyr a'r ffioedd dysgu sy'n gysylltiedig â hwy.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu am effaith y gostyngiadau (10%) i gostau cynnal Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rydym yn deall fod *Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015* wedi sefydlu fframwaith llywodraethu newydd i'r Cyngor Cyllido ei roi ar waith. Fodd bynnag, mae gan yr argymhellion yn adolygiad yr Athro Syr Ian Diamond (sydd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach eleni) ac ymateb Llywodraeth nesaf



Cymru i'r argymhellion hyn y potensial i fod yn bellgyrhaeddol iawn, a gallent newid rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'i gylch gwaith unwaith eto.

### **Gyrfa Cymru**

Mae'r Pwyllgor yn nodi â phryder y gostyngiad pellach i'r cyllid ar gyfer Gyrfa Cymru. Rydym yn parhau'n bryderus bod dibyniaeth ar ddarparu digidol yn golygu na all pobl ifanc sydd dan anfantais neu nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant gael cyfle i gael cyngor annibynnol ar yrfaedd. (Blaenoriaethu)

### **Prentisiaethau**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer prentisiaethau (o gronfeydd wrth gefn ac o ganlyniad i'r cytundeb cyllidebol gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru). Rydym hefyd yn croesawu sicrwydd y Dirprwy Weinidog y bydd digon o arian i sicrhau y bydd dechreuwyr newydd a rhai sydd eisoes ar brentisiaeth yn gallu cwblhau eu rhaglenni. (Blaenoriaethu)

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn rhannu pryder y Dirprwy Weinidog bod y diffyg eglurder hyd yma ynghylch cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer ardoll prentisiaethau wedi achosi i Lywodraeth Cymru oedi wrth ddatblygu ei chynlluniau ei hun ar gyfer prentisiaid a hyfforddeion.

Yn gywir,



William Graham AC

Cadeirydd





Jocelyn Davies AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Ionawr 2016

Annwyl Jocelyn,

### Cyllideb ddrafft 2016-17

Cyfarfu'r Pwyllgor Menter a Busnes ar 14 Ionawr i graffu ar waith Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran cynigion y gyllideb ddrafft.

Mae ein prif bryder yn ymwneud â phroses y gyllideb.

Mae'r newidiadau yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo llinell sylfaen y flwyddyn flaenorol wedi cael effaith arbennig o fawr ar y gyllideb Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Er enghraifft, mae'r gyllideb cyfalaf wedi gostwng 27.5% o gymharu â chyllideb atodol 2015-16, er ei bod wedi cynyddu 30.3% o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig.

Mae'r ddau ffigur yn ddilys - ond ni fu'r newid arddull yn ddefnyddiol i bwrpas gwaith craffu effeithiol.

Er i'r Gweinidog ddarparu tabl cysoni, ac addewid i ddarparu gwybodaeth ychwanegol amrywiol mewn ymateb i geisiadau penodol am enghreifftiau, roedd y cyflwyniad cyffredinol yn ei gwneud yn anodd iawn i sicrhau llawer o hyder yn fforddiadwyedd a gwerth am arian cyllideb yr Economi, Gwyddoniaeth a



Thrafnidiaeth. Mae ansicrwydd ynghylch yr amserlen ar gyfer Metro, y Fargen Ddinesig a bwriadau'r Gweinidog o ran Ardrethi Busnes (y bydd hi'n gwneud cyhoeddiad yn eu cylch yn ddiweddarach eleni) hefyd yn cymylu'r darlun.

Nododd y Pwyllgor ddau fater yn ymwneud â chyfrifoldeb ac atebolrwydd am waith craffu pellach. Dywedwyd wrthym mai'r Gweinidog Cyllid oedd yn gyfrifol am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Fargen Ddinesig Caerdydd, yn hytrach na Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Fodd bynnag, ymddengys yn debygol y daw unrhyw gyfraniad gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid – e.e. prosiect METRO – a ddarperir gan bortffolio yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Mae hwn yn bwnc y byddwn yn dychwelyd ato ar ôl cytuno ar fanylion y Fargen Ddinesig ac iddynt gael eu llofnodi.

Yn yr un modd, pan ofynnwyd am y prosiectau sydd i'w cynnwys yng Ngham 2 y Metro dywedodd y Gweinidog mai mater ar gyfer y Prif Weinidog fyddai hwn. Mae'r rheswm dros hyn yn aneglur, gan mai rhaglen drafnidiaeth yw Metro.

Yn gywir,



William Graham AC

Cadeirydd







---

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**  
Children, Young People and Education Committee

---

Huw Lewis AC  
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Bae Caerdydd

19 Ionawr 2016

### **Cyllideb ddrafft 2016-17**

Annwyl Weinidog

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 13 Ionawr i drafod y Gyllideb ddrafft ac am eich papur cynhwysfawr.

#### **Blaenoriaethu ac alinio amcanion â gwariant**

Mae eich cyflwyniad yn amlinellu'ch blaenoriaethau'n glir ac fe wnaethoch eu pwysleisio yn ystod eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod diffyg tryloywder ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau mewn perthynas â dyrannu cyllid. O ganlyniad, mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn gosod ei chyllideb mewn ffordd strategol.

Er enghraifft, bu toriadau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf yng nghyllid y sector addysg bellach, ond cafodd y sector addysg uwch ei amddiffyn. Eleni, mae'r sector addysg bellach wedi cael ei amddiffyn gan fwyaf, ond mae'r sector addysg uwch yn wynebu toriadau sylweddol. Gallai Llywodraeth Cymru fod wedi sicrhau'r un lefel o ostyngiadau mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft drwy ostyngiadau mwy graddol ar draws y ddau sector dros nifer o flynyddoedd. Nid oes esboniad llawn wedi cael ei roi ynghylch rhesymeg y Llywodraeth am y ffordd y mae wedi gweithredu, ac mae'r diffyg tryloywder hwn yn golygu nad yw bob amser yn eglur a yw'r Llywodraeth yn blaenoriaethu mewn ffordd strategol neu ond yn ymdopi â diffygion o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu y gallai'r diffyg



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
SeneddPPIA@cynulliad.cymru  
[www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA](http://www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA)  
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
SeneddCYPE@assembly.wales  
[www.assembly.wales/SeneddCYPE](http://www.assembly.wales/SeneddCYPE)  
0300 200 6565

gwaith strategol sydd i'w weld yn yr enghraifft uchod gael effaith sylweddol ar allu'r sectorau cyfan i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

O ran y diffyg dyraniadau cyllideb dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae'r Pwyllgor yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ystyried yr amgylchiadau ariannol bregus mewn nifer o sefydliadau, bydd y fath ansicrwydd yn ei gwneud yn arbennig o anodd iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol, a pharatoi ar gyfer gostyngiadau mewn cyllid os bydd rhaid.

Mae'r Pwyllgor yn bendant o'r farn bod yn rhaid i gyllidebau Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ganlyniadau ac y dylai systemau monitro cadarn fod yn sail iddynt. Cyfeiriodd y Gweinidog at enghreifftiau o werthusiadau annibynnol o bolisiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion a gwaith y mae Estyn yn ei wneud. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol ymgorffori monitro yn y broses o roi polisiau ar waith. Mae gwerthusiadau allanol o bolisiau yn ddefnyddiol ac i'w croesawu, ond dylai'r rhain fod yn ychwanegol i'r gwaith monitro mewnol trylwyr y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith cynllunio ariannol digon trylwyr ar gyfer rhoi polisiau ar waith. Er enghraifft, yn ystod proses y gyllideb y llynedd, dywedoch eich bod yn rhagweld y gallai adnoddau cyfredol fodloni'r newidiadau yn natblygiad proffesiynol parhaus athrawon. Fodd bynnag, yng Nghyllideb ddrafft 2016–17, mae cynnydd pellach o £5.65 miliwn wedi cael ei ddyrannu i'r Fargen Newydd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod eich papur yn cynnwys alldroeon rhagamcanol ar gyfer 2015–16. Yr alldro rhagamcanol, fel yng nghyfnod 8, yw tanwariant o £94 miliwn (5.9%) yn y DEL Adnoddau yn 2015–16. Byddwn yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am y mater hwn, gan gynnwys y rhesymau dros y tanwariant rhagamcanol, manylion y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, ac esboniad o'r hyn a fyddai'n digwydd i unrhyw arian sydd heb ei wario.

### **Targedu cronfeydd tuag at amddifadedd a/neu gyflawniad isel**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru unwaith eto eleni wedi ceisio blaenoriaethu cyllidebau sy'n canolbwyntio ar dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad. Y prif ddulliau ariannol i wneud hyn yw mentrau'r Grant Amddifadedd Disgyblion a Her Ysgolion Cymru.



## *Y Grant Amddifadedd Ysgolion*

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn anodd priodoli canlyniadau penodol i'r Grant hwn gan ei fod yn un o nifer o ymyriadau yn y maes polisi hwn. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu na all Llywodraeth Cymru asesu gwerth am arian y rhaglen hon yn llawn, ac felly na all sicrhau bod disgyblion cymwys yn cael y canlyniadau gorau o'r cyllid sylweddol sydd wedi'i ddyrannu i'r rhaglen.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r fenter i sicrhau bod manylion gwariant Grant pob ysgol ar gael i'r cyhoedd, ac mae'n credu y gallai'r craffu allanol ychwanegol a ddaw o ganlyniad arwain at fwy o effaith a gwerth am arian. Fodd bynnag, ceir pryderon o hyd nad yw ysgolion yn llwyr ddeall diben y Grant, ac yn wir sut y gellir ei ddefnyddio i'w lawn effaith. Pwysleisiwyd hyn yng ngwerthusiad allanol y Grant, a ddaeth i'r casgliad:

“A clearer message on whether the PDG is aimed to help close the attainment gap or to help all pupils fulfil their potential – and, as such, whether the PDG should be focused on the entire eFSM cohort, or just those whose attainment is poor – may be of value.”

Mewn perthynas â phennu dyraniad y Grant yn ôl a yw disgybl yn gymwys i gael pryddau ysgol am ddim, mae'r Pwyllgor yn pryderu o hyd ynghylch effaith cyflwyno'r Credyd Cynhwysol gan Lywodraeth y DU. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog ynglŷn â thrafodaethau rhwng swyddogion, ond rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i drafod â Llywodraeth y DU i ddeall pryd y bydd y system newydd yn cael ei chyflwyno a beth fydd y goblygiadau. Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi modelu mecanweithiau amgen ar gyfer pennu pwy sy'n gymwys i gael y Grant ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi gwybodaeth bellach cyn gynted ag sy'n briodol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi lefel wahanol y Grant ar gyfer plant dosbarth derbyn (pedair oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol). Yn Lloegr, mae plant o'r fath yn derbyn y gyfradd 'ysgol' o £1,320, ond yng Nghymru maent yn derbyn y Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar, sy'n talu £300 i ysgolion am bob plentyn cymwys. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog bod yna wahaniaethau eraill, fel cyfradd uwch y Grant ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd yng Nghymru o'i gymharu ag yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym yn credu bod cryn botensial i



ymyriadau wedi'u targedu gael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion dosbarth derbyn. Mae'r Pwyllgor yn credu nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi esboniad boddhaol o hyd ynghylch sut y penderfynwyd ar y swm o £300, a hefyd y dylai Llywodraeth Cymru esbonio ei rhesymeg dros gynnwys y dosbarth derbyn yng Ngrant y Blynnyddoedd Cynnar, o ystyried y pwyslais y mae'n ei roi ar ymyrraeth gynnar.

### *Her Ysgolion Cymru*

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich ymrwymiad y bydd rhaglen Her Ysgolion Cymru yn parhau i drydedd flwyddyn academiaidd yn 2016/17. Rydym yn croesawu'ch datganiad y bydd angen i'r Gweinidog cyfrifol oedi ac asesu ar ddiwedd y flwyddyn cyn ymrwymo mwy o arian. Mae'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn beth doeth. Fodd bynnag, o ystyried eich bod wedi nodi tystiolaeth ryngwladol sy'n awgrymu bod diwygio cynaliadwy ar lefel system yn gofyn am o leiaf pum mlynedd ac felly bod ysgolion yn sicr megis dechrau ar y llwybr tuag at welliant", mae'r Pwyllgor yn pryderu bod perygl na fydd dyraniadau cyllid digonol ar gael i wireddu effaith lawn y rhaglen. Bydd hyn yn golygu na fydd gwerth llawn y buddsoddiad yn cael ei wireddu.

### **'Rhaglen Ddiwygio Tridarn'**

#### *Adolygiad o'r cwricwlwm*

Mae'r Pwyllgor yn nodi'ch datganiad bod rhai prosiectau wedi cael eu tapro yn 2016–17 er mwyn ailgyfeirio £2 miliwn ar gyfer yr adolygiad o'r cwricwlwm, gan gyfeirio'n benodol at waith Chwaraeon Cymru a Techniquet mewn perthynas â phynciau addysg gorfforol a STEM yn y drefn honno. Rydych wedi esbonio bod Llywodraeth Cymru yn ceisio ymgorffori'r meysydd hyn yn y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai hyn greu bylchau yn y ddarpariaeth wrth drosglwyddo i'r cwricwlwm newydd. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad oes unrhyw ddisgyblion o dan anfantais yn ystod y cyfnod pontio yn sgil y gostyngiadau hyn mewn cyllid, a dylai esbonio'r camau sy'n cael eu cymryd i leddfau eu heffaith.

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich sylwadau yn y [Cyfarfod Llawn ar 30 Mehefin 2015](#) ynghylch faint o fuddsoddiad sydd ei angen yn y cwricwlwm newydd yn y dyfodol:



“[...] blaendal yw £3 miliwn, mewn gwirionedd, ar gyfer eleni, o ran dechrau ar ein gwaith. Mae e'n hollol iawn y byddai buddsoddiad o'r math hwnnw, neu fwy, yn angenrheidiol ar gyfer pob un o'r saith neu wyth mlynedd y byddwn yn ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae hynny'n wir, a bydd yn rhaid i ni gymryd y cyfrifoldeb cyllidebol hwnnw.”

Hefyd, mae'r Pwyllgor yn nodi eich sylwadau i'r Pwyllgor y rhagwelir y bydd angen cyllid o £8 miliwn a £10 miliwn ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Mae'r symiau hyn yn llawer uwch na'r rhai y cyfeirioch atynt yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd angen cyllid i roi cwricwlwm newydd ar waith, ond mae'n cwestiynu a oes rhagdybiaethau'n cael eu gwneud ac a yw amcanestyniadau'r gofynion ariannol yn ddigon cadarn. Dylai Llywodraeth Cymru bennu ei hamcangyfrif gorau o gostau yn y dyfodol ac esbonio at beth y maen nhw, yn enwedig o ystyried y gallai fod angen ailgyfeirio cyllid o brosiectau eraill i ddarparu ar gyfer y cyfnod pontio.

### ***Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer athrawon (y Fargen Newydd)***

Mae £5.65 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y Fargen Newydd yng Nghyllideb ddrafft 2016–17. Fodd bynnag, yn ystod gwaith craffu'r Gyllideb ddrafft y llynedd, wrth gyfeirio at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus athrawon, dywedoch fod angen newid diwylliant lle nad oes angen cyllid ychwanegol, ond sydd yn hytrach yn dibynnu ar ddefnyddio cyllid presennol yn fwy effeithiol.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael esboniad ynghylch pam mae'ch meddylfryd ar y mater hwn wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n amlwg bod yr asesiad o'r ymyrraeth y mae ei hangen, a'r adnodd ariannol sy'n ofynnol i'w chefnogi, yn anghywir a bod angen cryn dipyn yn fwy o gyllid.

Mewn perthynas â Chyngor y Gweithlu Addysg, mae'r Pwyllgor yn nodi'ch ymrwymiad i wneud yn iawn am unrhyw ddiffyg rhwng incwm y Cyngor a ddaw o ffioedd cofrestru a'r swm y mae ei angen arno i ymgymryd â'i swyddogaethau craidd.

Dywedoch wrth y Pwyllgor nad ydych yn rhagweld y bydd diffyg, ond os bydd yn digwydd y bydd angen ail-broffilio'r cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd wrthy'ch eich bod wedi gwneud asesiad trylwyr o effaith bosibl yr ymrwymiad hwn ac mai prin fydd effaith ailgyfeirio



unrhyw gyllid ar brosiectau eraill sy'n cael eu hariannu drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygiad a Chymorth Athrawon.

### *Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon*

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes dyraniad penodol yng nghyllideb 2016–17 ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Yn eich papur, rydych yn nodi bod y rhan fwyaf o'r agenda ddiwygio a amlinellwyd gan yr Athro Furlong yn effeithio ar ansawdd darparu rhaglenni, ac felly bod modd talu am hyn drwy'r cyllid cyfredol.

Mae'r ffaith eich bod yn nodi bod y 'rhan fwyaf' o'r agenda ddiwygio yn cael ei darparu drwy'r cyllid cyfredol yn awgrymu y bydd angen buddsoddiad ar gyfer rhywfaint o'r agenda. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd gennych chi bod y rhagdybiaethau a'r amcanestyniadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau hynny yn gadarn, o ystyried y gwnaed datganiadau tebyg mewn perthynas â'r Fargen Newydd, sydd bellach yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol yn y Gyllideb nesaf.

### **Grant Gwella Addysg**

Mae'r Pwyllgor yn nodi mai 2016–17 yw ail flwyddyn y Grant Gwella Addysg, a gyflwynwyd yn 2015–16 fel ffordd o ad-drefnu nifer o grantiau blaenorol oedd wedi'u neilltuo i awdurdodau lleol fel un grant. Y grantiau a gyfunwyd yn y Grant Gwella Addysg newydd yn 2015–16 oedd:

- y grant Llwybrau Dysgu 14–19;
- grant y Cyfnod Sylfaen;
- y grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig;
- y grant Sipsiwn a Theithwyr;  
y grant Cymraeg mewn Addysg; a'r
- grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

Torrwyd £7.5 miliwn o'r Grant Gwella Addysg cyn trosglwyddo £1 miliwn i mewn ar gyfer y rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd. Ers 2014–15, mae'r dyraniad wedi gostwng £19.1 miliwn i £135 miliwn yng Nghyllideb ddrafft 2016–17.

Yn ystod trafodaethau'r gyllideb y llynedd, rhoddoch sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y system grantiau symlach newydd yn rhoi ystyriaeth briodol i amcanion y grantiau



gwreiddiol. Ychwanegoch nad yw canolbwyntio ar hyblygrwydd yn golygu na fydd ychwanegol, awdurdodau lleol a chonsortia yn cael eu dwyn i gyfrif ar yr amcanion a'r mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt o dan y grant. Fodd bynnag, mae'n amlwg i'r Pwyllgor na all Llywodraeth Cymru sicrhau bod amcanion y grantiau gwreiddiol yn cael eu cyflawni. Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am drefniadau monitro'r grant cyfan, a gwybodaeth fanwl am amcanion pob un o'r grantiau a gyfunwyd yn y Grant Gwella Addysg.

Mewn perthynas â phlant Sipsiwn a Theithwyr, mae'r Pwyllgor yn nodi'r sylwadau yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Addysg a Sgiliau:

"Bydd gostyngiad yn y pecyn cyffredinol o gyllid yn y maes hwn, a allai leihau'r effaith gadarnhaol ar nodwedd warchoddedig hil a'r rhai o dan 16 oed, ond nid oes disgwyl y bydd unrhyw effaith ar unrhyw nodwedd warchoddedig arall. Mae cydberthynas gref rhwng cefndir economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad; er enghraifft, mae plant Sipsiwn a Theithwyr dair gwaith yn fwy tebygol o dderbyn prydau ysgol am ddim na'r cyfartaledd cenedlaethol. Felly, bydd y cyllid ychwanegol a roddir drwy'r grant amddifadedd disgyblion a'r gwaith cyffredinol i wella llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion yn lleddfu'r effaith."

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr awgrymu y gellid defnyddio ffrydiau cyllid sydd i fod yn rhai ychwanegol, fel y Grant Amddifadedd Disgyblion, i wneud yn iawn am ddiffyg cyllid yn y Grant Gwella Addysg er mwyn iddo allu cyflawni unrhyw un o'i ddibenion craidd.

### ***Y Gymraeg***

Mae gostyngiad o £740,000 yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb 'Cymraeg mewn Addysg) (ar ôl cyfrif am drosglwyddiad i mewn ar gyfer cyfrifoldebau newydd) i £18.7 miliwn. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod disgwyl cyhoeddi gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mis Mawrth 2016. Mae'r Pwyllgor yn credu bod yr amseru yn anffodus a byddai'n ddiolchgar o gael cadarnhad ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ailgyfeirio cyllid yn ystod y flwyddyn, gan ddibynnu ar ei hymateb i'r gwerthusiad.

### **Addysg bellach**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi amddiffyn y gyllideb ôl-16 trwy roi arian gwastad wedi'i ddiogelu i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb 'Darpariaeth





Addysg Bellach' sy'n cyllido dyraniadau i golegau a'r chweched dosbarth mewn ysgolion. Felly, mae'n parhau i fod yn £400 miliwn.

Mae'r cyfyngiadau ar gyllid addysg bellach dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith na ddylid ei diystyru ar y sector. Fel rydych yn ei gydnabod, mae'r effaith wedi bod yn arbennig o arwyddocaol ar fyfyrwyr rhan-amser:

“As expected the impact of the reduction in funding for part time students is much higher [than for full-time]. The number of part time hours is set to reduce by around 800,000 hours (21.88 per cent) in 2015/16. If the average part time course is around 100 hours per learner, this equates to 8,000 learners, although it's expected that the majority of part time courses ceased will be the shorter courses and hence this number could rise significantly. Information shared by the chair of ColegauCymru Finance Directors shows that the sector is expecting redundancies of around 850 people as a result of reduced budgets by 2015/16.”

Mae'r sefyllfa dysgu rhan-amser wedi newid yn llwyr o ganlyniad i'r gostyngiadau mewn cyllid dros y blynyddoedd diwethaf. Byddem yn ddiolchgar o gael gwybodaeth bellach am y camau rydych chi'n eu cymryd i sicrhau nad yw'r toriadau yn y sector yn cael effaith andwyol parhaus ar ddysgwyr.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi gostyngiad o 10% yn y gronfa ariannol wrth gefn. Dylai'r Gweinidog fonitro effaith y penderfyniad hwn a byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi manylion iddo am y gwerthusiad mwyaf diweddar o'r cynllun.

### **Addysg Uwch**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gostyngiad o £20 miliwn i gyllidebau rhaglenni CCAUC, sy'n darparu cyllid ar gyfer gweithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ym meysydd ymchwil o ansawdd, pynciau rhan-amser a phynciau drud. Er bod y cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dod o Linell Wariant wahanol yn y Gyllideb, CCAUC sydd hefyd yn ei ddarparu ac mae'r effaith ar y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn aneglur. Rydych yn dweud mai CCAUC, yn y pen draw, ddylai benderfynu sut y mae'n dyrannu ei adnoddau yn unol â blaenoriaethau Gweinidogol.

Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn anodd iawn asesu effaith bosibl toriadau heb ddeall beth fydd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Byddem wedi disgwyl i chi



allu rhoi syniad gwell i'r Pwyllgor a'r sector o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rydym yn nodi y dywedoch wrth y Pwyllgor hwn y byddwch yn blaenoriaethu cyrsiau rhan-amser; dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y byddai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn flaenoriaeth. Mae angen eglurder cyn gynted â phosibl i alluogi'r sector i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r hyn rydych chi'n ei ddweud am y tueddiad o incwm cynyddol i'r sector addysg uwch mewn cyfnod o gyni cyllidol a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn eich papur. Mae hyn yn bennaf oherwydd ffioedd dysgu. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch darpariaeth sy'n dibynnu ar gyllid grant drwy CCAUC, yn lle incwm ffioedd dysgu, neu ar ben incwm o'r fath. Mae'r Pwyllgor felly'n pryderu bod risg y bydd y gostyngiad mewn cyllid yn cael effaith anghymesur ar rai sefydliadau sy'n arbenigo mewn darparu cyrsiau rhan amser, ymchwil a phynciau drud fel meddygaeth, deintyddiaeth a'r celfyddydau perfformio. Ar ben hyn, mae'n debygol o gael effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr benywaidd a hŷn, sy'n manteisio ar y math o ddarpariaeth ran-amser sy'n debygol o gael ei lleihau.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am eich blaenoriaethau i CCAUC a sut rydych chi'n credu y gellir lleddfu effaith y gostyngiadau hyn.

### **Asesiadau Effaith**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi paratoi asesiad effaith integredig eto eleni. Byddem yn ddiolchgar pe gallech hysbysu'r Pwyllgor a oes asesiad effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal, yn benodol mewn perthynas ag Addysg a Sgiliau ac, os nad oes, sut y mae cyllideb ddrafft yr Adran yn diogelu'r Gymraeg yn ddigonol ac yn sicrhau cynnydd y Gymraeg.

Byddem yn ddiolchgar hefyd o gael gwybodaeth bellach am sut rydych wedi rhoi 'sylw dyledus' i hawliau plant yn ystod y broses o bennu'r Gyllideb ddrafft, a sut cafodd effeithiau datblygu cynaliadwy a gweithredu *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015* eu hystyried yn y gyllideb ddrafft Addysg a Sgiliau.



**Ann Jones AC**  
Cadeirydd



---

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**National Assembly for Wales**  
Health and Social Care Committee

---

**Mark Drakeford AC**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Vaughan Gething AC**

Y Dirprwy Weinidog Iechyd

19 Ionawr 2016

Annwyl Weinidogion

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 14 Ionawr 2016 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn tynnu sylw at y materion allweddol a nodwyd gan waith craffu'r Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft. Yn yr un modd a wnaed yn y gorffennol, rydym wedi labelu'r materion a godwyd yn unol â'r pedair egwyddor sy'n gysylltiedig â gwaith craffu ariannol da: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses y gyllideb.

Caiff y llythyr hwn ei rannu â'r Pwyllgor Cyllid, er mwyn llywio ei waith craffu cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft. Bydd hefyd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oherwydd y meysydd polisi o ddiddordeb cyffredin sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl.

Byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn croesawu cael y wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani yn yr atodiad cyn gynted ag y bo modd er mwyn llywio dadl olaf y Cynulliad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17.


Yn gywir,

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
Seneddlechyd@cynulliad.cymru  
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd  
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
SeneddHealth@assembly.wales  
www.assembly.wales/SeneddHealth  
0300 200 6565

A handwritten signature in black ink on a light yellow background. The signature reads "David F. Rees." in a cursive style.

**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Copi:**

Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg



# Atodiad

## A. Dyranriad refeniw ychwanegol ar gyfer gwasanaethau'r GIG

*(Egwyddorion: fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian)*

01. Y newid mwyaf yn y Gyllideb Ddrafft 2016–17 ar gyfer gofal iechyd yw cynnydd o £259 miliwn (4.0 y cant) mewn Refeniw o'i gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf 2015–16.<sup>1</sup> Mae'r newid hwn yn cynnwys:

£200 miliwn yn ychwanegol i gefnogi cyflwyno gwasanaethau craidd y GIG; cynnydd o £30m i'r Gronfa Gofal Canolraddol, sydd wedi tyfu o £20 miliwn yn 2014–15 i £50 miliwn yn 2016–17;

£30 miliwn ychwanegol ar gyfer pobl hŷn a gwasanaethau iechyd meddwl.

02. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn datgan bod y £200 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i gefnogi cyflwyno gwasanaethau craidd y GIG:

"... Yn dangos ymrwymiad clir [Llywodraeth Cymru] i sicrhau GIG cynaliadwy yng Nghymru yn seiliedig ar y diwygiadau a nodwyd yn adroddiad Nuffield, sydd hefyd yn cydnabod bod lle i'r GIG barhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y tymor canolig i'r tymor hwy."<sup>2</sup>

03. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y defnydd a dosbarthiad y £30 miliwn i bobl hŷn a gwasanaethau iechyd meddwl a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft eto i'w benderfynu.<sup>3</sup> At hynny, mae'n nodi na fydd y £65 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yn 2016–17 ar gyfer gofal sylfaenol, cynlluniau cyflawni, technoleg iechyd ac iechyd meddwl, a fydd ar gael eto yn 2016–17 ar gyfer yr un dibenion, yn cael ei ddyrannu hyd nes i'r prosiectau a gychwynwyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol gael eu hadolygu.<sup>4</sup>

04. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn wynebu pwysau o ran cyllid a chynaliadwyedd yn y tymor hir, gan gynnwys:

---

<sup>1</sup> Mae ffigurau gwaelodlin Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 fel y'u cyflwynir yn y Gyllideb Ddrafft yn £14.3 yn uwch na ffigurau'r Gyllideb Atodol

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [\*Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2016-17\*](#), 14 Ionawr 2016, tudalen 26

<sup>3</sup> Ibid, tudalen 3

<sup>4</sup> Ibid

- poblogaeth sy'n heneiddio o hyd gan arwain at fwy o forbidrwydd;
- cyfraddau gordewdra a chyflyrau cysylltiedig sy'n cynyddu;
- datblygiadau parhaus mewn technoleg yn arwain at gyflwyno triniaethau mwy cymhleth.

05. Mae'n nodi ymhellach y consensws cyffredinol bod trawsnewid gwasanaethau yn hanfodol ac yn croesawu'r sylwebaeth fanwl a ddarparwyd ar y mater gan sefydliadau megis Ymddiriedolaeth Nuffield, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Feddygol Prydain a Chyddfederasiwn GIG Cymru.

06. Mae'r Pwyllgor yn rhannu barn Conffederasiwn GIG Cymru fod:

- y cynnydd yn y galw am iechyd, ynghyd ag adnoddau ariannol cyfyngedig, wedi golygu bod darparu gofal iechyd yn y model presennol yn gynyddol anodd;
- mae angen i symud gofal yn agosach at gartrefi pobl, tra'n cynnal gofal mewn ysbytai hefyd;
- tra bod cynnydd diweddar yn y cyllid i'w groesawu, bydd cyllid yn parhau i fod yn eithriadol o dynn, ac mae'n fwyfwy amlwg bod dulliau traddodiadol o arbedion yn annhebygol o gyflawni'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol.<sup>5</sup>

07. Gan ymateb y llynedd i waith craffu'r Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft 2015–16, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod:

- roedd yn ofynnol cael y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer gofal iechyd yn 2015–16 i gynnal y lefelau gwasanaeth presennol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno;
- nid oedd parhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un ffordd yn bosibl, a byddai angen modelau newydd a mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau.<sup>6</sup>

08. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o wybodaeth er mwyn dangos:

- sut y mae'r gyllideb ddrafft yn sicrhau bod trawsnewid gwasanaethau yn cael ei gyflwyno yn 2016–17;

---

<sup>5</sup> Conffederasiwn GIG Cymru, [Her 2016: Gweledigaeth GIG Cymru](#), Hydref 2015

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, [Ymateb ysgrifenedig i lythyr craffu ar y gyllideb ddrafft y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2015-16](#), 4 Tachwedd 2014, tudalen 1 [ar gael yn Saesneg yn unig]



- sut y bydd y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer 2016–17 yn arwain at wella gwasanaethau ymhellach yn hytrach nag ariannu aneffeithlonrwydd neu wneud iawn am orwario;
- i ba raddau y bydd y dyraniadau a wnaed yn ddigonol i gyflawni targedau perfformiad allweddol (e.e. amseroedd triniaeth canser, amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol, triniaeth cleifion mewnol ac achosion dydd a mynediad i wasanaethau diagnostig).

## B. Cynllunio ariannol a sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol yn 2015–16

*(Egwyddorion: fforddiadwyedd; proses y gyllideb)*

09. Cyflwynodd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 ddyletswydd ariannol newydd ar Fyrddau Iechyd i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd ariannol yn hytrach na phob blwyddyn. Wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth, nododd y Gweinidog mai ei nod oedd mynd i'r afael ag "anhyblygrwydd" y drefn bresennol sydd, yr oedd yn dadlau, yn "tynnu sylw ymdrechion ar ddiwedd y flwyddyn trwy ganolbwyntio ar ofynion arbedion cymharol fach er mwyn cyrraedd y targed ar ddiwedd y flwyddyn yn hytrach na chanolbwyntio ar y strategaeth ariannol tymor canolig a'r Cynllun Integredig ar gyfer cyflawni yn y blynedd ariannol sydd ar ddod."<sup>7</sup>
10. Mae'r Pwyllgor yn nodi ein bod ni ran o'r ffordd yn unig drwy'r cylch tair blynedd cyntaf a gyflwynwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Yn hynny o beth, mae'n cydnabod nad yw'n bosibl eto i werthuso'n llawn effaith y trefniadau newydd. Mae'r Pwyllgor yn nodi ar gyfer 2015–16 bod saith o'r deg o Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd wedi cael eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig tair blynedd (IMTP) wedi'u cymeradwyo, sef tri yn fwy na'r nifer a gymeradwywyd yn 2014–15.<sup>8</sup>
11. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd a wnaed o ran cynhyrchu a chymeradwyo IMTPs. Er hynny, mae'n nodi bod tri sefydliad (Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Betsi Cadwaladr, ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol i'r Bil Cyllid Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\)](#), 30 Medi 2013, tudalen 7

<sup>8</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 8\]](#), 14 Ionawr 2016



Ambiwylans Cymru) yn gweithredu ar sail cynllun un flwyddyn oherwydd nad yw'r Gweinidog wedi cael y sicrwydd sydd ei angen arno er mwyn gallu cymeradwyo eu cynlluniau tair blynedd.<sup>9</sup> Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog bod y sefydliadau hynny sydd â chynlluniau tair blynedd ar waith yn dangos lefelau uwch o berfformiad, effeithlonrwydd a gwell cynllunio gweithlu a gwasanaethau.<sup>10</sup> O ganlyniad, er ei fod yn cydnabod yn llawn yr angen am broses gymeradwyo gadarn a thrylwyr ar gyfer IMTPs, mae'n credu bod angen mwy o gyflymder ac adnoddau i sicrhau cynlluniau tair blynedd ar gyfer y sefydliadau sy'n gweithredu ar sail cynllun blwyddyn.

12. Mae'r Pwyllgor yn nodi datganiad y Gweinidog bod y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn gyffredinol, wedi "byw o fewn ei allu".<sup>11</sup> Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi na fydd pob sefydliad iechyd yng Nghymru yn aros o fewn balans ei gyllideb 2015–16 ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon penodol y Gweinidog am Fyrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Betsi Cadwaladr, y rhagwelir na fydd y naill na'r llall ohonynt yn adennill eu costau. Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi gwaith parhaus y Gweinidog gyda Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Abertawe Bro Morgannwg i sicrhau eu bod yn cyflawni balans ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2015–16.<sup>12</sup>

13. Mae'r Pwyllgor yn nodi datganiad y Gweinidog nad yw'n barod i "gynnal ffuglen" bod sefydliadau wedi llwyddo i fyw o fewn eu gallu drwy ddarparu arian ychwanegol i'r rhai na allant gydbwyso eu llyfrau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<sup>13</sup> Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar sefyllfa ariannol Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2015–16.

---

<sup>9</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 8\]](#), 14 Ionawr 2016

<sup>10</sup> Ibid, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 9\]](#), 14 Ionawr 2016

<sup>11</sup> Ibid, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 11\]](#), 14 Ionawr 2016

<sup>12</sup> Ibid, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 38\]](#), 14 Ionawr 2016

<sup>13</sup> Ibid, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 21\]](#), 14 Ionawr 2016





## C.Gostyngiad mewn cyllid llywodraeth leol a'i effaith

*(Egwyddorion: fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian)*

14. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016–17 yn amlinellu gostyngiad mewn cyllid ar gyfer llywodraeth leol. Mae'r setliad llywodraeth leol dros dro yn dangos gostyngiad o 1.4 y cant, neu 3.1 y cant mewn termau real. Fodd bynnag, mae naratif y gyllideb yn datgan bod £21 miliwn yn ychwanegol wedi'i gynnwys ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn y Grant Cynnal Refeniw.<sup>14</sup>

15. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r tair ffordd y dywedodd y Gweinidog ei fod yn ceisio cynnal cefnogaeth ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol awdurdodau lleol:

- drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF);
- trwy'r defnydd a gynlluniwyd o bwerau a ddarparwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i alluogi cyfuno cyllidebau awdurdodau lleol ac iechyd ar gyfer gofal preswyl;
- trwy gymhwyso'r dull ataliol i ofal a ymgorfforir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n anelu at symud buddsoddiad i gefnogi gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol.<sup>15</sup>

16. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr ymgynghoriad ar y setliad llywodraeth leol yn mynd rhagddo, a bod yn rhaid gwneud dewisiadau anodd yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Fodd bynnag, mae'n pryderu am effaith y gostyngiad arfaethedig yng nghyllid llywodraeth leol ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r pryderon hyn yn cael eu hatgyfnerthu gan adroddiadau diweddar Swyddfa Archwilio Cymru [\*Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015\*](#) (Rhagfyr 2015) a [\*Cefnogi Annibyniaeth Pobl Hŷn: A yw Cynghorau'n gwneud digon?\*](#) (Hydref 2015) sy'n:

- dangos y gallai fod yna arwyddion o bwysau ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael unrhyw fath o gymorth gan gynghorau;
- nodi bod yna bryderon penodol ynghylch cynaliadwyedd y sector cartrefi gofal preswyl yng Nghymru;

---

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, [\*Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016–2017\*](#), tudalen 29

<sup>15</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [\*Cofnod y Trafodion Drafft \[para 50-52\]\*](#), 14 Ionawr 2016



- amlinellu bod gwasanaethau ataliol wedi cael toriad o 16.8 y cant, gyda chyllidebau yn gostwng o £147.3 miliwn yn 2013–14 i £122.5 miliwn yn 2014–15.

17. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gweithio ar draws y llywodraeth, ac yng nghyd-destun ehangach cyfyngiadau ariannol, er mwyn sicrhau:

- ni fydd y gostyngiad yn setliad ariannol llywodraeth leol yn arwain at ostyngiad o ran argaeledd ac ansawdd gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar;
- ni fydd gweithrediad y meini prawf cymhwysedd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, nac yn arwain at unrhyw gyfyngiadau amhriodol o ran mynediad at y gwasanaethau cymdeithasol;
- bydd mecanweithiau yn eu lle i fonitro effeithiolrwydd ac effaith cyfuno cyllidebau;
- lliniaru'r risg y gallai toriadau mewn cyllidebau llywodraeth leol gael effaith negyddol ar allu ysbytai i ryddhau cleifion i dderbyn gofal yn y gymuned.

## D.Fformiwla dyrannu adnoddau (Townsend) a dosbarthu cyllid ychwanegol

*(Egwyddorion: proses y gyllideb; blaenoriaethu)*

18. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd y cyllid ychwanegol o £200 miliwn ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn 2016–17 yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd unigol yn seiliedig ar y niferoedd yn y boblogaeth, ac yn unol â'r fformiwla Townsend a ddiweddarwyd.<sup>16</sup> Nid oedd hwn wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn.

19. Mae'r Pwyllgor wedi nodi yn flaenorol yr angen i ystyried a gwella trefniadau ar gyfer llifau ariannol ar draws ffiniau Byrddau Iechyd. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2015 yn nodi, er bod Llywodraeth Cymru wedi

<sup>16</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 140\]](#), 14 Ionawr 2016



bod yn gweithio gyda GIG Cymru ar y mater hwn ers peth amser, nid oedd yr egwyddorion ar gyfer ymdrin â llifau ariannol ar draws ffiniau Byrddau Iechyd wedi eu cwblhau oherwydd y newidiadau sylweddol a gynlluniwyd i wasanaethau yr oedd angen eu rhoi ar waith.<sup>17</sup> Dywedodd y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2015:

- bod angen adolygu'r gwaith ar lifau ariannol gan Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac eraill i adlewyrchu'r newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r trefniadau llif cleifion sy'n newid a fyddai'n codi drwy Raglen De Cymru a chynlluniau ad-drefnu eraill;
- bod gwaith ar lifau ariannol yn awr yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Gydwethredol Iechyd GIG Cymru Bob Hudson a byddai'n cael ei ddiweddarau a'i gyflwyno i Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd ym mis Medi 2015;
- gallai'r egwyddorion newydd ar gyfer incwm a llifau ariannol gael eu hystyried ar gyfer eu cymhwyso yn 2016–17.

20. Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 14 Ionawr 2016, dywedodd Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, wrth y Pwyllgor nad oedd y gwaith ar gytuno ar egwyddorion wedi dod i ben eto. Ychwanegodd ei fod yn obeithiol y byddai egwyddorion y cytundeb yn cael eu cytuno erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2015–16, ond eu bod yn annhebygol o fod yn eu lle i ddylanwadu ar ddryaniadau yn rhan gyntaf y flwyddyn ariannol 2016–17.<sup>18</sup>

21. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ac yn siomedig nad yw'r amserlenni ar gyfer cyflwyno dull gwell o ymdrin â llifau ariannol ar draws ffiniau Byrddau Iechyd wedi cael eu bodloni. Byddai'r Pwyllgor felly yn croesawu cynllun gweithredu clir ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn i gynnwys amserlenni ar gyfer cymhwyso'r fethodoleg newydd.

22. At hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu amlinelliad o'r dryaniadau a wnaed i Fyrddau Iechyd Unigol o'r £200 miliwn ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn 2016–17.

---

<sup>17</sup>Llywodraeth Cymru, [\*Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn sesiwn graffu ariannol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ym mis Mehefin 2015\*](#),<sup>17</sup> Gorffennaf 2015, tudalen 4

<sup>18</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [\*Cofnod y Trafodion Drafft \[para 120-122\]\*](#), 14 Ionawr 2016



## E.Cronfa Gofal Canolraddol

*(Egwyddorion: blaenoriaethu; gwerth am arian)*

23. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) wedi cynyddu o £20 miliwn yn 2014–15 i £50 miliwn yn 2016–17.<sup>19</sup> Mae'r Pwyllgor yn nodi na fydd y cyllid ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cael ei ddyrannu hyd nes y bydd y prosiectau a gychwynnwyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol wedi cael eu hadolygu ac mae'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i dargedu buddsoddiad mewn prosiectau sy'n dangos tystiolaeth bendant o werth am arian.<sup>20</sup>
24. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cyfleoedd a gynigir gan yr ICF i annog ac ysgogi arloesedd, iechyd ac integreiddio gofal cymdeithasol, a mwy o gydweithio rhwng y sector statudol a'r trydydd sector sydd yn hanfodol i ddarparu'r trawsnewid gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol y mae mawr ei angen.
25. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu crynodeb o ganlyniadau mentrau a ariennir gan ICF, gyda ffocws arbennig ar feysydd o arfer da y dylid ei rannu a'i gyflwyno ar draws Cymru.

## F.Cyfalaf

*(Egwyddorion: fforddiadwyedd; proses y gyllideb)*

26. Dyraniad cyfalaf y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016–17 yw £253m, sy'n cynnwys cyllid ychwanegol o £33.4m o'i gymharu â'r dyraniad cyllideb yn 2015–16. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd y cyfalaf cyhoeddus sydd ar gael i Lywodraeth Cymru wedi cael ei dorri 30 y cant mewn termau real erbyn 2019–20, o'i gymharu â 2009–10.<sup>21</sup>
27. Mae'r Pwyllgor yn credu bod argaeledd arian cyfalaf yn elfen allweddol o ran sicrhau trawsnewid gwasanaethau, nid yn unig mewn gwasanaethau ysbyty,

---

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru, [Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2016-17](#), 14 Ionawr 2016, tudalen 1

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 63-64\]](#), 14 Ionawr 2016

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 17\]](#), 14 Ionawr 2016



ond hefyd ym maes gofal sylfaenol. Mae'n nodi bod yna gostau cyfalaf sydd ar y gweill a allai fod yn sylweddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno newid yn y gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio, gan gynnwys:

- Canolfan Gofal Critigol Arbenigol (SCCC) yn Llanfrechfa;
- darpariaeth canser newydd yn Ysbyty Felindre;
- ailffurfio posibl o wasanaethau trawma mawr yn Ne Cymru;
- datblygu gwasanaethau newyddenedigol yng Ngogledd Cymru;
- gwella a datblygu'r ystâd gofal sylfaenol.

28. Mae'r Pwyllgor yn pryderu na fydd y rhaglen gyfalaf uchelgeisiol sydd ei hangen i ddarparu'r trawsnewid mewn gwasanaethau sydd ei angen i ddarparu GIG cynaliadwy yng Nghymru yn cael ei gyfateb gan yr arian cyfalaf angenrheidiol. I'r perwyl hwn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar y cynnydd a gyflawnwyd wrth gyflwyno Rhaglen De Cymru, sy'n allweddol i drawsnewid gwasanaethau. Elfen hollbwysig o hyn yw'r SCCC a byddai'r Pwyllgor yn croesawu amserlen wedi'i diweddarau ar gyfer cwblhau a chomisiynu'r SCCC.

29. Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r wybodaeth a gyhoeddir ar y rhaglen gyfalaf fod yn hygyrch, yn glir ac yn gyflawn. I'r perwyl hwn, byddai'n croesawu dadansoddiad clir o wariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2016–17, gan gynnwys y cyfansymiau ar gyfer gwaith cyfalaf parhaus, y dyraniad cyfalaf dewisol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau a buddsoddiad cyfalaf newydd arfaethedig.

## G. Gofal sylfaenol

*(Egwyddorion: fforddiadwyedd; proses y gyllideb; gwerth am arian)*

30. Nododd y Gweinidog ei gynlluniau ar gyfer 2016–17 ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys ymrwymiad i barhau i ddarparu'r £40m ychwanegol ar gyfer gofal sylfaenol a ddyrannwyd yn 2015–16.<sup>22</sup> Nododd mai'r tair blaenoriaeth ar gyfer y cyllid hwn fyddai i helpu i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau, gwella mynediad i wasanaethau, ac i

---

<sup>22</sup> Llywodraeth Cymru, [Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2016-17](#), 14 Ionawr 2016, tudalen 6



symud gwasanaethau allan o'r ysbyty i'r gymuned. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog na fyddai'r dyraniad cyllid ar gyfer 2016–17 yn cael ei benderfynu hyd nes bod y prosiectau a gychwynwyd yn 2015–16 wedi cael eu hadolygu.<sup>23</sup> Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i dargedu buddsoddiad yn:

- prosiectau sy'n dangos tystiolaeth bendant o werth am arian;
- arallgyfeirio a datblygu'r tîm gofal sylfaenol;
- gwella mynediad lleol i wasanaethau gofal sylfaenol.

31. Mae pryderon y Pwyllgor ynghylch recriwtio a chadw meddygon teulu wedi'u cofnodi'n helaeth yn ei waith o 2015 ar y [gweithlu Meddygon Teulu yng Nghymru](#). Byddai'n croesawu arwydd o sut mae'r Gyllideb Ddrafft wedi'i llunio er mwyn sicrhau:

- bod yna weithlu gofal sylfaenol cynaliadwy;
- bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau cydbwysedd rhwng cyfran y meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ym maes gofal sylfaenol.

## H. Gwasanaethau ataliol

*(Egwyddor: blaenoriaethu; gwerth am arian)*

32. Mae tystiolaeth y Gweinidog yn pwysleisio pwysigrwydd buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol. Dywed fod ei gynlluniau wedi defnyddio "ymagwedd systemau cyfan" <sup>24</sup> sy'n gwneud asesiad ehangach o sut mae'r ddarpariaeth iechyd y cyhoedd a gwasanaethau cymdeithasol yn rhyngweithio gydag amrywiaeth o ymyriadau cymorth eraill i gwrdd ag anghenion pobl. Mae hefyd yn cydnabod y pwysigrwydd o ail-gydbwyso'r system iechyd yng Nghymru tuag at ataliaeth.<sup>25</sup>

---

<sup>23</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Ddrafft \[para 126\]](#), 14 Ionawr 2016

<sup>24</sup> Llywodraeth Cymru, [Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2016-17](#), 14 Ionawr 2016, tudalen 2

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru, [Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2016-17: Atodiad C - Aseiad Effaith Integredig ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#), 14 Ionawr 2016, tudalen 2



33. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn anodd bod yn fanwl ynglŷn â lefel y gwariant ar ataliaeth. Fodd bynnag, nododd fod gweithgarwch yn amrywio o raglenni sy'n canolbwyntio ar hybu negeseuon ffordd o fyw cadarnhaol a chefnogi pobl i fod yn fwy gwybodus am eu hiechyd a'u llesiant, i raglenni imiwneiddio a brechu, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu.<sup>26</sup>

34. Mae'r Pwyllgor yn rhannu barn Conffederasiwn GIG Cymru, fel y nodir yn ei gyhoeddiad [Yr Her 2016: Gweledigaeth ar gyfer GIG Cymru](#), sef "bellach mae angen penderfyniadau dewr i arwain at newid ar raddfa ddiwydiannol" yn y gwasanaethau gofal iechyd a bod angen symud adnoddau o driniaeth i ataliaeth i gefnogi pobl i wneud dewisiadau gwell o ran eu ffordd o fyw. I'r perwyl hwn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am y cynlluniau sy'n cael eu rhoi ar waith i gyflwyno'r hyblygrwydd sydd eu hangen i hwyluso datblygiad pellach o wasanaethau ataliol y gelwir amdanynt gan Gonffederasiwn GIG Cymru.

## I. Effaith deddfwriaeth

(Egwyddor: fforddiadwyedd)

35. Mae tystiolaeth y Gweinidog yn nodi nifer o feysydd deddfwriaeth a fydd yn cael effaith ariannol yn 2016–17, gan gynnwys:

Deddfwriaeth	Cyllid	Camau gweithredu
Y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013	£0.6m	Darparu gwasanaethau'r GIG wedi'u targedu
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	£4.3m	Strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)	£1.5m	Strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol
Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)	£0.7m	Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach
Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014	£0.025m	Darparu gwasanaethau craidd y GIG

<sup>26</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 93-94\]](#), 14 Ionawr 2016



36. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch y canlynol:

- sut mae costau cyffredinol gweithredu deddfwriaeth wedi cael eu hamcangyfrif;
- pa waith fydd yn cael ei wneud i reoli, monitro ac adrodd ar y costau hyn;
- a fydd y gyllideb yn ddigonol i ddelio ag unrhyw gostau posibl sy'n ymwneud â deddfwriaeth nad yw wedi'i nodi yn ei adroddiad (ee Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru));
- a fydd y cyllid a nodwyd ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddigonol.

## J. Y Gronfa Byw'n Annibynnol

*(Egwyddor: blaenoriaethu)*

37. Yn dilyn [trafodaeth y Pwyllgor ym mis Ionawr 2015 ar y trefniadau ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb am y Gronfa Byw'n Annibynnol \(ILF\)](#) o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2015, mae'n croesawu cadarnhad y Gweinidog y cafodd £27 miliwn ei ddyrannu i Gymru drwy gyfrwng yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer 2016–17.<sup>27</sup> Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymhellach sicrwydd y Gweinidog y bydd £27 miliwn yn cael ei roi yn uniongyrchol i mewn i Grant Byw'n Annibynnol newydd Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi nad yw'r Gweinidog yn bwriadu newid y trefniadau gweinyddol ar gyfer dosbarthu grantiau drwy lywodraeth leol yn y tymor byr, ond bod trafodaethau ar y gweill ynghylch y dull hirdymor o weinyddu'r ILG.<sup>28</sup>

38. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am y trefniadau hirdymor ar gyfer dosbarthu'r Grant Byw'n Annibynnol unwaith y bydd y trafodaethau wedi symud ymlaen.

---

<sup>27</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 182\]](#), 14 Ionawr 2016

<sup>28</sup> Ibid





## K.Ymglyfreitha a'r gronfa risg

(Egwyddor: fforddiadwyedd)

39. Mae [cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru](#) yn cydnabod rhwymedigaeth i dalu am gostau penodol yn y dyfodol. Mae darpariaethau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu i £707 miliwn (2014–15) o £605 miliwn (2013–14). Yng nghyfrifon 2013–14, amlygwyd bod bron y cyfan, sef £593.8 miliwn, yn ymwneud â Chronfa Risg GIG Cymru, sy'n bennaf ar gyfer esgeulustod clinigol. Ni chafodd y ffigur ar gyfer y gronfa risg ei nodi yng nghyfrifon 2014–15.
40. Mae'r Pwyllgor yn rhannu barn y Gweinidog bod y gost o ymglyfreitha yn "fater o bryder",<sup>29</sup> ond mae'n cydnabod na all Llywodraeth Cymru effeithio ar y lefelau iawndal a delir i hawl wyr cymwys, gan fod y lefelau yn cael eu pennu gan y llysoedd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r twf yn y costau ac iawndal sy'n gysylltiedig â'r hawliadau yn gyfyngedig i Gymru – mae wedi digwydd ar draws y DU. Ar ben hynny, mae'n nodi datganiad y Gweinidog fod y cynnydd yn nifer a chost hawliadau yn is yng Nghymru nag yn Lloegr.<sup>30</sup>
41. Esboniodd y Gweinidog ei bod yn ofynnol i Fyrddau lechyd yn awr i ddangos bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â ffynhonnell unrhyw hawliad cyn i unrhyw ad-daliad gael ei sicrhau gan y Gronfa Risg.<sup>31</sup> Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r mesurau hyn.

---

<sup>29</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 147\]](#), 14 Ionawr 2016

<sup>30</sup> Ibid

<sup>31</sup> Ibid, [Cofnod y Trafodion Drafft \[para 149\]](#), 14 Ionawr 2016



---

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**National Assembly for Wales**

Communities, Equality and Local Government Committee

---

**Leighton Andrews AC**  
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**

22 Ionawr 2016

**Annwyl Weinidog**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Ionawr 2016 i ateb cwestiynau am gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 o ran llywodraeth leol.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, cyn gynted â phosibl, yn ôl y gofyn.

**Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru**

Nodwn mai cyfanswm y dyraniad ar gyfer y portffolio llywodraeth leol ar gyfer 2016-17 yw £3.34 biliwn, sy'n ostyngiad o £87.8 miliwn yn nhermau arian parod o'i gymharu â ffigurau llinell sylfaen 2015-16. Er na fyddai unrhyw ostyngiad yn y dyraniad yn cael ei groesawu'n gynnes, rydym yn cydnabod hynny, yng nghydestun y cyfyngiadau ariannol parhaus, ac o ystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu gwariant mewn meysydd allweddol eraill, fel iechyd, mae'r gostyngiad hwn i'w ddisgwyl mewn gwirionedd. Bellach, rydym yn cydnabod fod y gostyngiad yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, sydd, wrth gwrs, yn newyddion da. Ar y cyfan, rydym o'r farn fod y dyraniad yn rhesymol a'i fod yn darparu setliad teg ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Nodwn, o fewn y dyraniad is ar gyfer llywodraeth leol, y bydd £21 miliwn a £34.8 miliwn yn ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac fel arian ar gyfer ysgolion yn y drefn honno. Pan holwyd ynglŷn â'r canlyniadau y



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru  
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL  
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
SeneddCELG@assembly.wales  
www.assembly.wales/SeneddCELG  
0300 200 6565

disgwylwch i'r arian ychwanegol hwn eu cyflawni, dywedasoeh wrthym mai mater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd sicrhau bod eu blaenoriaethau'n cael eu darparu gan lywodraeth leol. Er ein bod yn derbyn bod y Gweinidogion perthnasol yn atebol am ddarparu polisïau o fewn eu portffolios, disgwylwn i chi, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y dyraniadau hyn, fod yn gyfrifol am y penderfyniadau yr ydych wedi'u gwneud.

## **Cronfeydd wrth gefn a gaiff eu dal gan awdurdodau lleol**

Er ein bod yn cydnabod bod penderfyniadau ynghylch cronfeydd wrth gefn yn fater i awdurdodau unigol, credwn fod gan Lywodraeth Cymru rôl i sicrhau bod awdurdodau ledled Cymru wedi gwneud trefniadau digon cadarn ar gyfer sefydlu, adolygu a rhyddhau cronfeydd wrth gefn. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r camau cadarnhaol yr ydych wedi'u cymryd i wella tryloywder ac atebolrwydd o ran cronfeydd wrth gefn a gaiff eu cadw gan awdurdodau lleol, yn enwedig cyhoeddi data blynyddol ar gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, ar wefan Llywodraeth Cymru.

Er gwaethaf yr uchod, wrth drafod yr awdurdodau a'u defnydd o gronfeydd wrth gefn, dywedwyd wrthym bod rhai awdurdodau yn fwy effeithlon nag eraill o ran eu defnydd o gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella ac y gall fod angen camau ychwanegol yn y cyswllt hwn. O ystyried y pwysau ariannol parhaus a wyneba'r awdurdodau, mae'n ymddangos yn rhesymol bod disgwyl iddynt adolygu'n feirniadol lefel a natur eu cronfeydd wrth gefn, er bod hynny er mwyn eu bodloni eu hunain a'r etholwyr bod y cronfeydd yn cael eu defnyddio'n ddoeth. **Gofynnir am eglurhad pellach ynghylch a ydych yn bwriadu dilyn y mater hwn ymhellach gydag awdurdodau.**

## **Effaith y gostyngiadau cyllido**

Er gwaethaf ein sylwadau blaenorol am y setliad teg ar gyfer llywodraeth leol, rydym yn dal yn bryderus am effaith bosibl y gostyngiadau cyllido ar wasanaethau heb ddiogelwch neu wasanaethau dewisol, fel gwasanaethau hamdden. Mae'r gwasanaethau hyn, nid yn unig yn bwysig i gymunedau lleol ond maent yn cael effaith ataliol ac yn cyfrannu at yr agenda lles. Fel chwithau, rydym o'r farn y bydd



penderfyniadau tymor byr i gau'r gwasanaethau hyn yn arwain at broblemau yn y dyfodol.

Rydym yn disgwyl y byddwch yn parhau i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr perthnasol yn y Cabinet i roi cymorth i awdurdodau adnabod modelau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau, a fydd gobeithio, yn helpu i ddiogelu rhag colli gwasanaethau dewisol ar draws Cymru. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu bod adroddiad wedi'i gyhoeddi ar fodelau cydweithredol a chydfuddiannol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a'r ymgynghoriad diweddar ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer modelau eraill. **Hoffem pe bai modd i chi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y cyfle cyntaf sydd ar gael.**

### **Diwygio Llywodraeth Leol**

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Bil Llywodraeth Leol (Cymru) wedi'i gyhoeddi, a byddwn yn ei ystyried yn yr wythnosau nesaf. Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran datblygiadau'r agenda diwygio, deallwn nad yw'r uno arfaethedig i ddigwydd tan 2019, gydag unrhyw fanteision ariannol posibl yn cael eu gwireddu yn y blynyddoedd sy'n dilyn. Fel y nodwyd wrthyfych o'r blaen, rydym yn pryderu y gall y broses ddiwygio a'r uno arfaethedig atal awdurdodau rhag cael eu hysgogi i chwilio am ffyrdd i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, gan gynnwys ymrwymo i drefniadau cydweithredol, yn y dyfodol agos. Rydym o'r farn y dylai disgwyliad clir fod ar awdurdodau i barhau i chwilio am gyfleoedd i wella ac i gydweithio, er gwaetha'r diwygiadau. **Hoffem gael sicrwydd pellach gennych fod hyn yn wir.**

### **Cyfiawnder ieuencid**

Mae gennym rai amheuan am y gostyngiad yn y cyllid refeniw ar gyfer cyfiawnder ieuencid, o £5.2 miliwn yn 2015-16 i £4.4 miliwn yn 2016-2017. Er ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf wrth fynd i'r afael â throseddau ieuencid, rydym yn pryderu ynghylch goblygiadau'r gostyngiad yn y maes gwariant ataliol pwysig hwn ar gyfraddau troseddu ieuencid.

O gofio eich honiad ei bod yn "hanfodol" bod y rhai sydd mewn perygl o aildroseddu yn cael y cymorth angenrheidiol, ac yn cael y gwasanaethau priodol, a bod Llywodraeth Cymru wedi dweud yn ddiweddar bod cyfraddau aildroseddu yn parhau i fod o bryder, cawsom ein synnu gan eich penderfyniad. Er ein bod yn



cydnabod bod yn rhaid i'r gostyngiad cyffredinol yn nyraniad llywodraeth leol effeithio rhywfaint ar bob maes, rydym yn cwestiynu a yw'r achos o blaid y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer cyfiawnder ieuenctid wedi'i gyflwyno. Felly, **byddem yn hoffi cael rhagor o fanylion ynghylch ar ba sail rydych wedi gwneud y penderfyniad hwn, ac ar y canlyniadau yr ydych yn disgwyl iddynt gael eu cyflawni o ganlyniad i'r dyraniad cyllid.**

Yn ogystal â'r uchod, rydych yn dweud wrthym eich bod yn credu bod modd gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian yn y maes gyda rhagor o gydweithio ar draws meysydd awdurdodau lleol. Rydym yn cwestiynu a fydd hyn, ynddo'i hun, yn ddigon i liniaru effaith y gostyngiad, ac yn eich cyfeirio at ein sylwadau cynharach ar gydweithredu. **Byddem yn croesawu cael rhagor o fanylion gennych ar yr hyn y mae "rhagor o gydweithio" yn ei olygu yn ymarferol. Byddem hefyd yn croesawu manylion am sut yr ydych yn bwriadu monitro effaith y gostyngiad cyllid.**

Ar bwynt ehangach, nodwn eich barn am yr angen i ystyried cyllid ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol, o gofio bod Llywodraeth y DU wedi egluro ei bwriad i beidio â datganoli cyfiawnder ieuenctid. Bydd y trefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer meysydd nad ydynt wedi'u datganoli yn anochel yn fater y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn awyddus i'w hystyried. Os bydd y Llywodraeth honno'n penderfynu parhau i wario mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, bydd yn hanfodol sefydlu fframwaith polisi clir, a chanlyniadau y cytunwyd arnynt, ar gyfer y gwariant hwnnw.

### **Asesu'r effaith ar gydraddoldeb**

Nodwn y camau yr ydych wedi'u cymryd i atgoffa awdurdodau lleol o'u dyletswyddau cydraddoldeb o ran y broses o bennu'r gyllideb, ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o arferion gorau yn hyn o beth. Derbyniwn nad yw'n rhesymol nac yn ymarferol i chi ystyried pob asesiad a gynhelir gan yr awdurdodau. Fodd bynnag, credwn fod yna rôl drosolwg i Lywodraeth Cymru wrth fonitro pa mor gadarn yw'r asesiadau hyn, yn ogystal â'u heffaith gronnol. **Hoffem gael eich barn ar hyn.** Rydym wedi ysgrifennu i'r perwyl hwn at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth hefyd.



## Y Gymraeg

Hoffem wneud yr un pwyntiau ag y nodwyd uchod o ran asesiadau effaith gan awdurdodau lleol ar benderfyniadau gwariant ar yr iaith Gymraeg. Ar ben hynny, mae gennym rai pryderon am yr amrywiad drwy'r gwahanol awdurdodau yn eu dull gweithredu o ran yr asesiadau hyn. Mae'n amlwg yn ôl eich tystiolaeth, bod gennych rai amheuon ynghylch a fydd cyflwyno safonau iaith Gymraeg ar gyfer awdurdodau, sydd ar fin digwydd, yn gwella'r sefyllfa hon. **Byddem yn hoffi pe bai modd i chi roi rhagor o fanylion am sut yr ydych yn credu y gellir mynd i'r afael â'r amrywiad hwn, a beth yw eich bwriadau yn hyn o beth.**

Ar bwynt ehangach, hoffem ailadrodd fod angen parhau i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg drwy'r holl awdurdodau. Rydym yn croesawu'r cam i sefydlu Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol ac edrychwn ymlaen at weld canlyniad ei waith.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**

Cadeirydd



---

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**National Assembly for Wales**

Communities, Equality and Local Government Committee

---

## **Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC Y Prif Weinidog**

22 Ionawr 2016

Annwyl Brif Weinidog

### **Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2016–17**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Ionawr 2016 i ateb cwestiynau am gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17, yn benodol ynglŷn â'r Gymraeg.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

#### **1. Gwariant a Blaenoriaethu**

Mae cyllid ar gyfer y Gymraeg wedi'i ostwng eto yng nghyllideb ddrafft y Llywodraeth, o £27.2 miliwn yn 2015–16 i £25.6 miliwn yn 2016–17. Fel y gwyddoch, mae hyn yn ostyngiad o 5.9% (neu 7.5% mewn termau real).

Mae'r gostyngiad hwn yn fwy amlwg yng nghyd-destun cynnydd cyffredinol mewn cyllid refeniw ar gyfer adrannau Llywodraeth Cymru yn 2016–17; cynnydd o £121 miliwn o'i gymharu â llinell sylfaen 2015–16<sup>1</sup>.

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb clir i gynnal bywiogrwydd y Gymraeg ac annog twf ynddi. Mae'n anodd gweld sut y gellir cyflawni hyn pan mae'r Llywodraeth yn parhau i dynnu cefnogaeth ariannol hanfodol oddi ar y maes hwn. Fel y gwnaethom drafod yn ystod ein cyfarfod diweddar, os bydd y Llywodraeth yn parhau i flaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ynghylch y gyllideb, bydd y gwaith o ddatblygu cymdeithas

---

<sup>1</sup> Neu gynnydd o £94.3 miliwn o'i gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2015-16



naturiol ddwyieithog yn cael ei effeithio'n andwyol. Dylai gwariant ar yr iaith adlewyrchu'r uchelgais yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer iaith sy'n ffynnu. Nid ydym o'r farn bod hyn wedi'i gyflawni yn y gyllideb ddrafft.

Ar y cyfan, mae cyllid penodol ar gyfer rhaglenni ynghylch y Gymraeg yn cynrychioli llai na 0.18% o gyfanswm y cyllid<sup>2</sup> a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru yn 2016–17. Roeddem yn synnu, felly, at ddyfnder y toriad, o ystyried bod hwn yn faes gwariant cymharol isel. Rydym hefyd yn pryderu y bydd y toriad cymharol ddwfn hwn yn debygol o gael effaith anghymesur o fawr ar ddyfodol yr iaith.

Rydym yn nodi eich penderfyniad i ddyrannu £1.2 miliwn i liniaru effaith gostyngiadau ar gyllid i'r iaith Gymraeg.

- i. A allwch egluro a fydd hyn yn cael ei gynnwys yn y llinell sylfaen ar gyfer cyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf?

Yn fwy cyffredinol, hoffwn gael rhagor o wybodaeth am rhai o'r ffigurau a ddarparwyd yn eich papur am y gyllideb ar gyfer y Gymraeg a'r ffigurau a ddarparwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ei [bapur](#) i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Yn eich papur, rydych yn datgan mai'r llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer y Gymraeg yng nghyllideb ddrafft 2016–17 fydd £3,913,000; mae'r Gweinidog yn datgan mai £3,964,000 fydd y llinell wariant hon. Rydych hefyd yn datgan mai'r llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg fydd £3,051,000; mae'r Gweinidog yn datgan mai £3,000,000 fydd y llinell wariant hon.

- ii. A allwch egluro pa un o'r dyraniadau hyn sy'n gywir?

### *Canolfannau Cymraeg*

Rydym yn nodi penderfyniad y Llywodraeth i ostwng y cyllid ar gyfer rhaglenni fel Cymraeg i Oedolion er mwyn canolbwyntio ar fesurau eraill i gryfhau'r iaith yn y gymuned, yn enwedig sefydlu deg canolfan iaith.

Yn ystod ein cyfarfod, dywedoch wrthym fod trefniadau yn eu lle i'r canolfannau rannu arfer da, a'ch bod yn disgwyl i bob canolfan adrodd yn flynyddol ar ei gynnydd. Rydych wedi cytuno i rannu copi o'r adroddiadau hyn gyda ni, ac rydym yn edrych ymlaen at eu cael.

---

<sup>2</sup> Terfynnau Gwariant Adrannol refeniw a chyfalaf





Cyn hynny, mae gennym ddiddordeb penodol yn y materion a ganlyn:

- iii. y canlyniadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl gan y canolfannau hyn er mwyn cadarnhau a oedd y penderfyniad i ailflaenoriaethu cyllid yn fuddiol i'r iaith.

## 2. Asesiadau Effaith

Rydym yn parhau i bryderu ynghylch yr angen i asesu effaith penderfyniadau cyllidebol ar y Gymraeg yn well ar draws portffolios y Gweinidogion. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda chi y llynedd ac, yn eich tystiolaeth ysgrifenedig ddiweddar, dywedoch wrthym fod camau wedi eu cymryd wrth baratoi'r gyllideb ddrafft [2016–17] i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn briodol. Hefyd, dywedoch wrthym fod y Llywodraeth, wrth ostwng y gyllideb gyffredinol ar gyfer y Gymraeg, wedi ceisio sicrhau nad yw toriadau, lle y maent wedi'u gwneud, yn cael effaith ar yr hyn sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad. Rydym hefyd yn nodi bod canllawiau wedi'u rhoi i bob adran ynghylch defnyddio asesiadau effaith ar yr iaith wrth baratoi eu cyllidebau drafft.

Roeddem, felly, yn siomedig nad oes gwybodaeth yn dal i fod wedi'i darparu am y gwaith a wnaed ar draws adrannau i asesu effaith penderfyniadau cyllido ar yr iaith, canlyniadau'r asesiadau hynny neu sut y maent wedi dylanwadu ar y penderfyniadau cyllido gwahanol. Nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ychwaith, sydd dim ond yn cyfeirio at y dyraniad ychwanegol o £1.2 miliwn ar gyfer yr iaith a'r effaith gadarnhaol arni sy'n deillio o'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid i ysgolion.

Yn ogystal â hyn, roedd eich datganiad ei bod hi'n anodd darparu asesiad cyffredinol o effaith y toriadau yn y gyllideb, er bod gennych asesiadau unigol o'r effaith ar yr iaith o ran polisïau a rhaglenni unigol, yn destun cryn bryder inni.

- i. Rydym yn gofyn am ymrwymiad gennych y bydd asesiadau effaith integredig strategol yn y dyfodol yn cynnwys y wybodaeth a amlinellwyd uchod, yn ogystal ag asesiad o effaith gronnol penderfyniadau cyllido ar y Gymraeg.
- ii. Rydym hefyd yn gofyn am ymrwymiad gennych i gyhoeddi'r holl ddogfennau perthnasol er mwyn hwyluso'r gwaith o graffu arnynt.



### 3. Bwrw Mlaen

Yn dilyn ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft y llynedd, gwnaethom ysgrifennu atoch ynghylch yr angen i weld gwybodaeth fanylach am y dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ail-flaenoriaethu cyllid o raglenni fel Cymraeg i Oedolion. Rydym hefyd yn gofyn am fwy o wybodaeth am y canlyniadau penodol yr ydych yn eu disgwyl drwy'r ail-flaenoriaethu hwn a'r strategaeth Bwrw Mlaen.

Rydym yn nodi bod Prifysgol Bangor wedi'i chomisiynu gan y Llywodraeth i ymchwilio i'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol ac mai'r bwriad oedd i'r gwaith hwn gyfrannu at eich dealltwriaeth o lwyddiant rhoi Bwrw Mlaen ar waith. Roeddem yn siomedig nad oeddech hefyd wedi gofyn i'r Brifysgol werthuso effeithiolrwydd rhaglenni a gyllidir gan Lywodraeth Cymru i hwyluso defnydd o'r Gymraeg neu asesu gwerth am arian y rhaglenni hyn.

Rydym yn nodi o'ch tystiolaeth yr oedd Bwrw Mlaen yn gynllun penodol ar gyfer amser penodol a gynlluniwyd i sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer y 10 o ganolfannau iaith sydd wedi'u lleoli'n strategol ledled Cymru. Fodd bynnag, gan fod y llinell wariant yn y gyllideb ar y Gymraeg (sy'n cyllido Bwrw Mlaen) yn wynebu gostyngiad o 25.6% o ran arian parod yn y gyllideb ddrafft:

- i. pa gamau ydych yn eu cymryd i werthuso effaith y gostyngiad hwn, yn enwedig gan nad oedd gwaith ymchwil Prifysgol Bangor yn ystyried gwerth am arian neu effeithiolrwydd rhaglenni a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn?
- ii. a ydych yn bwriadu comisiynu gwaith ymchwil ar wahân ar y mater hwn?

### 4. Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg

Fel rhan o gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17, mae Comisiynydd y Gymraeg yn wynebu gostyngiad o £339,000 yn ei chyllideb, neu 10% yn nhermau arian parod. Er bod hyn yn arwyddocaol ynddo'i hun, mae hyd yn oed yn fwy pwysig yng nghyd-destun y gostyngiad mewn blynyddoedd blaenorol; 8% yn 2015–16 a 10% yn 2014–15.

Pan ddaeth y Comisiynydd gerbron y Pwyllgor ddiwedd y llynedd, dywedodd wrthym, ar ôl colli bron i chwarter ei hincwm dros y pedair blynedd diwethaf: “mae toriad arall yn ystod y blynyddoedd nesaf ac yn y flwyddyn nesaf yn mynd i fod, buaswn i'n ei ddweud, yn drychinebus o ran gweithrediad Mesur y Gymraeg.”



Dywedodd wrthym y bydd y ddwy flynedd nesaf yn “anhygoel o bwysig” o ran gweithrediad y Mesur a’r safonau a fydd yn cael eu cyflwyno drwyddo, yn enwedig gan y bydd tua 250 o gyrff yn dod yn rhan o’r system newydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rydym yn nodi bod £150,000 ychwanegol wedi’i ddyrannu i swyddfa’r Comisiynydd yn rhan o flwyddyn ariannol 2015–16, ac mai bwriad hyn yw lliniaru’r gostyngiadau i gyllideb 2016–17. Serch hynny, mae’r gostyngiadau cyffredinol yng nghyllid swyddfa’r Comisiynydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn ei gwneud hi’n anodd gweld sut na fydd y gwaith o gyflawni gwaith pwysig ei swyddfa o ran safonau yn cael ei rwystro.

Fel rhan o’ch tystiolaeth, dywedoch wrthym eich bod yn rhagweld y bydd y £150,000 ychwanegol yn cael ei ddefnyddio yn ystod blwyddyn ariannol 2015–16, oherwydd y bwriad oedd iddo gynorthwyo’r gwaith ychwanegol a oedd i’w wneud ar y safonau. Gwnaethom drafod y mater hwn yn fyr yn ystod y cyfarfod. A allwch gadarnhau:

- i. a oes unrhyw hyblygrwydd yma, o ystyried datganiad y Comisiynydd i ni am bwysigrwydd y *ddwy* flynedd nesaf wrth weithredu’r Mesur?
- ii. a oes gennych unrhyw gynlluniau i wneud dyraniad ychwanegol tebyg i’r Comisiynydd at y diben hwn yn 2016–17?

## 5. Addysg

### *Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*

Yn dilyn y gwaith o graffu ar gyllideb y llynedd, gwnaethom ysgrifennu atoch i fynegi ein pryderon ynghylch effaith gostyngiadau mewn cyllid ar gyflawni strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Rydym yn nodi bod cyllid ar gyfer y llinell wariant ar y Gymraeg mewn addysg yn cynyddu ychydig gan £82,000 yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016–17, ond bod y cynnydd hwn wedi’i gyflawni drwy drosglwyddo £825,000 o linell wariant y Gymraeg. Effaith hyn yw gostyngiad o £743,000. Yn ei thystiolaeth i’r Pwyllgor Cyllid (7 Ionawr 2016), dywedodd y Gweinidog Cyllid mai diben y trosglwyddiad hwn yw datblygu dull mwy strategol o ran caffael iaith ar gyfer grŵp oedran 0–4 oed. Dywedoch wrthym fod y trosglwyddiad yn fater o wahaniaeth gweinyddol,



fwy neu lai, a bod y Llywodraeth am sicrhau bod arian yn cael ei ddyrannu i feysydd lle y gellir ei wario yn y modd mwyaf effeithiol.

A allwch ddarparu gwybodaeth am y materion a ganlyn:

- i. sail resymegol trosglwyddo rhwng llinellau gwariant ar y gyllideb ac unrhyw gynlluniau neu fentrau yr effeithir arnynt yn andwyol oherwydd hyn
- ii. y canlyniadau penodol yr ydych yn eu disgwyl o ganlyniad i'r trosglwyddiad i'r llinell wariant ar Gymraeg mewn addysg.
- iii. effaith y gostyngiad o £743,000 yn y llinell wariant ar Gymraeg mewn addysg yn sgil y trosglwyddiad.

### *Twf*

Rydych wedi disgrifio prosiect Twf fel rhaglen gwariant ataliol allweddol a: “p[h]rif ymyriad Llywodraeth Cymru ym maes trosglwyddo iaith o fewn y teulu, y mae arbenigwyr yn ystyried ei fod yn un o ddau faes pwysicaf cynllunio ieithyddol”.

Roeddem yn synnu, felly, i weld bod penderfyniad wedi'i wneud i ostwng y dyraniad o'r gyllideb ar gyfer prosiect Twf yn 2016–17 gan £0.2 miliwn. Rydym yn nodi'ch tystiolaeth bod y prosiect yn cael ei ail-gontractio ddiwedd mis Mawrth, ac y bydd hyn yn cynnig cyfle i wneud arbedion effeithlonrwydd o ran gweithrediadau cefn swyddfa heb effeithio'n andwyol ar ddarparu gwasanaethau.

- iv. Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i fesur effaith y gostyngiad yn y gyllideb yn y maes hwn, o ystyried eich datganiad na fydd gostyngiad o'r fath yn arwain at gwtogi ar lefel y gwasanaeth?

### *Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaethpwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) i ehangu'r ystod o bynciau addysg uwch y gellir eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, am effaith y gostyngiad o £20 miliwn yn y cyllid sydd ar gael i CCAUC ei ddyrannu i sefydliadau addysg uwch, a'r effaith bosibl ar y CCC a'i allu i barhau â'r gwaith hwn.

Yn ystod ein cyfarfod, clywsom gan eich swyddog y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad cryf i CCAUC drwy'r llythyr cylch gwaith, gan annog CCAUC i barhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer y CCC. Fodd bynnag, clywsom hefyd mai penderfyniad i CCAUC fyddai hynny yn y pen draw.



- v. Hoffwn gael sicrwydd gennych y bydd yr arweiniad hwn yn cynnwys datganiad cryf na ddylai penderfyniadau cyllido a wneir gan CCAUC yn y dyfodol gael effaith anghymesur ar y Gymraeg.

### *Dechrau'n Deg*

Yn ystod ein cyfarfod, gwnaethom drafod yn fyr pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth o ran cynllun Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg i fwydo i mewn i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'n ymddangos i fod yn fwy tebygol y bydd plant sy'n cael mynediad at gynlluniau Dechrau'n Deg drwy gyfrwng Cymraeg yn parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau iaith ffyniannus a chymdeithas naturiol ddwyieithog.

Gyda hynny mewn golwg, byddem yn ddiolchgar i gael manylion am y camau penodol a gymerir gan Lywodraeth Cymru i werthuso—

- vi. a oes digon o leoedd Dechrau'n Deg drwy gyfrwng Cymraeg i ateb y galw, ac
- vii. a yw'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol ar hyn o bryd i alluogi Llywodraeth i gyflawni ei hamcanion ei hun ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg mewn grwpiau oedran hŷn.

## 6. Cyngor Llyfrau Cymru

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom drafod ein pryderon ynghylch effaith y gostyngiadau arfaethedig o 10.6% yng nghyllideb Cyngor Llyfrau Cymru ar y Gymraeg. Rydym yn croesawu'r [cyhoeddiad](#) gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn ddiweddar na fydd cyllid ar gyfer y Cyngor yn cael ei ostwng yn y gyllideb ddrafft.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**

Cadeirydd

Copi at: **Jocelyn Davies AC**, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; **Ann Jones AC**, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg



# Eitem 3

## Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3333>

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2016

Amser: 09.07 – 14.50

### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Jocelyn Davies AC (Cadeirydd) Peter Black AC Christine Chapman AC Mike Hedges AC Alun Ffred Jones AC Ann Jones AC Julie Morgan AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Huw David, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Adam Cairns, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Victoria Winckler, Sefydliad Bevan Michael Trickey, Sefydliad Joseph Rowntree



	Eleri Butler MBE, Cymorth i Ferched Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Gerallt Roberts (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd) Gareth David Thomas (Ymchwilydd) Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

## TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: Sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan: Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Y Cynghorydd Anthony Hunt – Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen / Dirprwy Lefarydd Cyllid ac Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a'r Cynghorydd Huw David – Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Llefarydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17.

3.2 Datganodd Peter Black AC fuddiant perthnasol o dan Reol Sefydlog 17.24A.

## **4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: Sesiwn dystiolaeth 3**

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan: Adam Cairns – Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; a Steve Moore – Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17.

## **5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: Sesiwn dystiolaeth 4**

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan: Dr Victoria Winckler – Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan; a Michael Trickey – Ymgynghorydd Cymru, Sefydliad Joseph Rowntree ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17.

5.2 Datganodd Mike Hedges AC a Christine Chapman AC fuddiannau perthnasol o dan Reol Sefydlog 17.24A.

## **6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: Sesiwn dystiolaeth 5**

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Eleri Butler – Prif Weithredwr, Cymorth i Ferched Cymru ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17.

## **7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:**

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## **8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: Trafod y dystiolaeth**

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## **9 Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Trefn y Broses Ystyried**

9.1 Cytunodd y Pwyllgor i ddilyn y drefn ystyried a ganlyn ar gyfer Gwelliannau Cyfnod 2 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru):

<b>Adrannau</b>
2 – 34



36 - 79
35
81 - 114
80
116 - 154
115
155 - 161
162 - 168
170 - 182
169
183 - 185
186 - 193
1
Teitl hir

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3359>

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Ionawr 2016

Amser: 09.00 – 11.42

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Jocelyn Davies AC (Cadeirydd) Peter Black AC Christine Chapman AC Mike Hedges AC Alun Ffred Jones AC Ann Jones AC Julie Morgan AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth Jo Salway, Llywodraeth Cymru Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Gerallt Roberts (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd)



## TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

### **1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### **2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: Sesiwn dystiolaeth 6**

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan: Jane Hutt AC – y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth; Jo Salway – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru; a Jeff Andrews – Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17.

2.2 Datganodd Peter Black AC fuddiannau perthnasol o dan Reol Sefydlog 17.24A:

### **3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:**

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

### **4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: Trafod y dystiolaeth**

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

### **5 Gweithredu Deddf Cymru 2014**

5.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ran Llywodraeth y DU, a'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar ran Llywodraeth Cymru, i gyfarfod y Pwyllgor i drafod yr adroddiadau.

### **6 Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol: Ebrill 2015 – Medi 2015**

6.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

Jane Hutt AC / AM  
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth  
Minister for Finance and Government Business



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jocelyn Davies AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

20 Ionawr 2016

Annwyl Jocelyn,

Rwy'n cyhoeddi bod Dyfed Alsop wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Cyflawni y corff newydd, Awdurdod Cyllid Cymru. Ar hyn o bryd, Dyfed yw Prif Swyddog Strategaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a bydd yn ymuno â Llywodraeth Cymru yn ystod haf 2016. Mae'r penodiad hwn yn gam arwyddocaol yn y gwaith o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Jane Hutt AC / AM**  
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth  
Minister for Finance and Government Business

## RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

### Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) Tax Collection and Management (Wales) Bill

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –

The Bill will be considered in the following order –

Sections 2 - 34	Adrannau 2 -34
Sections 36 - 79	Adrannau 36 - 79
Section 35	Adran 35
Sections 81 - 114	Adrannau 81 - 114
Section 80	Adran 80
Sections 116 - 154	Adrannau 116 - 154
Section 115	Adran 115
Sections 155 - 161	Adrannau 155 - 161
Sections 162 - 168	Adrannau 162 - 168
Sections 170 - 182	Adrannau 170 - 182
Section 169	Adran 169
Sections 183 - 185	Adrannau 183 - 185
Sections 186 - 193	Adrannau 186 - 193
Schedule	Atodlen
Section 1	Adran 1
Long Title	Teitl hir



- Nick Ramsay** 91  
Section 2, page 2, line 5, leave out 'the Welsh Revenue Authority' and insert 'Revenue Wales'.  
Adran 2, tudalen 2, llinell 5, hepgorer 'Awdurdod Cyllid' a mewnosoder 'Refeniw'.
- Nick Ramsay** 92  
Section 2, page 2, line 6, leave out 'Awdurdod Cyllid' and insert 'Refeniw'.  
Adran 2, tudalen 2, llinell 5, hepgorer 'Welsh Revenue Authority' a mewnosoder 'Revenue Wales'.
- Nick Ramsay** 93  
Section 2, page 2, line 7, leave out 'Welsh Revenue Authority' and insert 'Revenue Wales'.  
Adran 2, tudalen 2, llinell 7, hepgorer 'Awdurdod Cyllid' a mewnosoder 'Refeniw'.
- Nick Ramsay** 94  
Section 2, page 2, line 7, leave out 'WRA' and insert 'RW'.  
Adran 2, tudalen 2, llinell 7, hepgorer 'ACC' a mewnosoder 'RC'.
- Nick Ramsay** 95  
Section 2, page 2, line 8, leave out 'WRA' and insert 'RW'.  
Adran 2, tudalen 2, llinell 8, hepgorer 'ACC' a mewnosoder 'RC'.
- Nick Ramsay** 96  
Section 2, page 2, line 9, leave out 'WRA' and insert 'RW'.  
Adran 2, tudalen 2, llinell 9, hepgorer 'ACC' a mewnosoder 'RC'.
- Nick Ramsay** 24  
Section 3, page 2, line 13, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.  
Adran 3, tudalen 2, llinell 13, hepgorer 'Weinidogion' a mewnosoder 'Gynulliad Cenedlaethol'.



- Jane Hutt** 75  
Section 3, page 2, line 14, leave out '3' and insert '4'.  
Adran 3, tudalen 2, llinell 14, hepgorer '3' a mewnosoder '4'.
- Nick Ramsay** 25  
Section 3, page 2, line 14, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.  
Adran 3, tudalen 2, llinell 14, hepgorer 'Weinidogion' a mewnosoder 'Gynulliad Cenedlaethol'.
- Nick Ramsay** 26  
Section 3, page 2, line 17, leave out 'either 1 or'.  
Adran 3, tudalen 2, llinell 17, hepgorer 'naill ai 1 neu'.
- Jane Hutt** 76  
Section 3, page 2, line 17, leave out 'nominated by WRA' and insert –  
'appointed by the chief executive, and  
(e) 1 other member of staff of WRA appointed under section [to be inserted by amendment 83]'.  
Adran 3, tudalen 2, llinell 17, hepgorer 'a enwebir gan ACC' a mewnosoder –  
'a benodir gan y prif weithredwr, ac  
(e) 1 aelod arall o staff ACC a benodir o dan adran [i'w mewnosod gan welliant 83]'.  
27
- Nick Ramsay** 27  
Section 3, page 2, line 17, leave out 'nominated by WRA' and insert '(“the employee members”'.  
Adran 3, tudalen 2, llinell 17, hepgorer 'a enwebir gan ACC' a mewnosoder '(“yr aelodau sy'n gyflogeion”'.  
28
- Nick Ramsay** 28  
Section 3, page 2, line 18, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.  
Adran 3, tudalen 2, llinell 18, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Gynulliad Cenedlaethol'.
- Jane Hutt** 1  
Section 3, page 2, line 21, after 'it', insert ' ; but the regulations must ensure that the number of non-executive members continues to exceed the number of executive members'.  
Adran 3, tudalen 2, llinell 21, ar ôl 'tro', mewnosoder ' ; ond rhaid i'r rheoliadau sicrhau bod nifer yr aelodau anweithredol yn parhau i fod yn uwch na nifer yr aelodau gweithredol'.



**Nick Ramsay**

29

Section 3, page 2, after line 21, insert –

'( ) Appointments made under subsection (1)(a) to (c) and (2) must be based on the conclusion of fair and open competition.'

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

'( ) Rhaid seilio penodiadau a wneir o dan is-adran (1)(a) hyd at (c) a (2) ar ganlyniad cystadleuaeth deg ac agored.'

**Jane Hutt**

77

Section 3, page 2, line 23, after 'are', insert 'collectively'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 23, ar ôl 'cyfeirir', mewnosoder 'ar y cyd'.

**Nick Ramsay**

30

Section 3, page 2, line 25, leave out 'members of WRA nominated under subsection (1)(d)' and insert 'the employee members'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 25, hepgorer 'aelodau o ACC a enwebir o dan is-adran (1)(d)' a mewnosoder 'yr aelodau sy'n gyflogeion'.

**Jane Hutt**

78

Section 3, page 2, line 25, leave out 'nominated under subsection (1)(d) are' and insert 'appointed under subsection (1)(d) or section [to be inserted by amendment 83] are collectively'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 25, hepgorer 'at y prif weithredwr ac at aelodau o ACC a enwebir o dan is-adran (1)(d)' a mewnosoder 'ar y cyd at y prif weithredwr ac at aelodau o ACC a benodir o dan is-adran (1)(d) neu o dan adran [i'w mewnosod gan welliant 83]'.

**Jane Hutt**

79

Section 3, page 2, line 26, after 'members"', insert –

‘;

(c) the member of WRA appointed under section [to be inserted by amendment 83] is referred to as an "elected executive member".

Adran 3, tudalen 2, llinell 26, ar ôl 'gweithredol"', mewnosoder –

‘;

(c) cyfeirir at yr aelod o ACC a benodir o dan adran [i'w mewnosod gan welliant 83] fel "aelod gweithredol etholedig".





**Nick Ramsay**

31

Section 3, page 2, after line 26, insert—

'(5) The Schedule contains provision about appointments under subsection (1)(d).'

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'(5) Mae'r Atodlen yn cynnwys darpariaeth ynghylch penodiadau o dan is-adran (1)(d).'

**Nick Ramsay**

32

Section 5, page 3, line 13, leave out 'subsection (3)' and insert 'subsections (3) to ([to be inserted by amendment 38])'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 12, hepgorer 'is-adran (3)' a mewnosoder 'is-adrannau (3) hyd at ([i'w mewnosod gan welliant 38])'.

**Jane Hutt**

80

Section 5, page 3, after line 13, insert—

'() The period of office specified in the terms of a non-executive member's appointment must not be more than 5 years.'

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

'() Ni chaiff y cyfnod yn y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod anweithredol fod yn hwy na 5 mlynedd.'

**Nick Ramsay**

33

Section 5, page 3, line 14, after 'as' at the first place where it appears, insert 'chairperson or'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 14, ar ôl 'yn' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder 'gadeirydd neu'n'.

**Nick Ramsay**

34

Section 5, page 3, line 14, after 'as' at the second place where it appears, insert 'chairperson or'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 14, ar ôl 'fel', mewnosoder 'cadeirydd neu'.

**Nick Ramsay**

35

Section 5, page 3, line 16, after 'as', insert 'chairperson or'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 15, ar ôl 'yn' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder 'gadeirydd neu'n'.



**Nick Ramsay**

36

Section 5, page 3, line 16, leave out 'subsection (3)' and insert 'subsections (3) to ([to be inserted by amendment 38])'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 16, hepgorer 'is-adran (3)' a mewnosoder 'is-adrannau (3) hyd at ([i'w mewnosod gan welliant 38])'.

**Nick Ramsay**

37

Section 5, page 3, line 17, after 'member,' insert 'chairperson'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 17, ar ôl 'ACC,' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder 'fel cadeirydd ACC'.

**Nick Ramsay**

38

Section 5, page 3, line 19, leave out subsection (4) and insert—

'() An appointment under this Part is to be for a period of no more than 4 years.

() A person may not be appointed under this Part more than twice.'

Adran 5, tudalen 3, llinell 19, hepgorer is-adran (4) a mewnosoder—

'() Rhaid i benodiad o dan y Rhan hon fod am gyfnod o hyd at 4 blynedd a dim mwy na hynny.

() Ni chaniateir penodi person o dan y Rhan hon fwy na dwywaith.'

**Jane Hutt**

81

Section 5, page 3, line 19, after 're-appointed', insert 'as a non-executive member once only'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 20, ar ôl 'ACC', mewnosoder 'yn aelod anweithredol unwaith yn unig'.

**Jane Hutt**

82

Section 5, page 3, after line 19, insert—

'() A person who is or has been deputy chairperson of WRA may be re-appointed as deputy chairperson.'

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 20, mewnosoder—

'() Caniateir ailbenodi person sy'n is-gadeirydd ACC neu sydd wedi bod yn is-gadeirydd ACC yn is-gadeirydd.'



**Jane Hutt**

83

Page 3, after line 25, insert a new section –

**[ [ Appointment of elected executive member**

- (1) WRA must conduct a ballot of its staff for the purpose of appointing a member of staff as an elected executive member of WRA.
- (2) The non-executive members of WRA must –
  - (a) appoint the winner of the ballot as an elected executive member of WRA, and
  - (b) determine the terms of that person's appointment.
- (3) An elected executive member of WRA holds office as a member for such period and on such terms as are specified in the terms of the member's appointment (but subject to subsection (4) and section 6).
- (4) An elected executive member of WRA may resign from office by giving notice to the non-executive members of WRA.'.

Tudalen 3, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd –

**[ [ Penodi aelod gweithredol etholedig**

- (1) Rhaid i ACC gynnal pleidlais gudd ymhlith ei staff at ddiben penodi aelod o staff yn aelod gweithredol etholedig o ACC.
- (2) Rhaid i aelodau anweithredol ACC –
  - (a) penodi enillydd y bleidlais gudd yn aelod gweithredol etholedig o ACC, a
  - (b) pennu telerau penodiad y person hwnnw.
- (3) Mae aelod gweithredol etholedig o ACC yn gwasanaethu fel aelod am ba bynnag gyfnod ac ar ba bynnag delerau a bennir yn nhelerau penodiad yr aelod (ond yn ddarostyngedig i is-adran (4) ac adran 6).
- (4) Caiff aelod gweithredol etholedig o ACC ymddiswyddo drwy roi hysbysiad i aelodau anweithredol ACC.'.

**Jane Hutt**

84

Section 6, page 3, after line 34, insert –

- '( ) The non-executive members of WRA may remove a person from office as an elected executive member of WRA by notice if –
- (a) the person has been absent from meetings of WRA for a period longer than 6 months without the permission of WRA, or
  - (b) the non-executive members of WRA consider that the person is unfit to be a member or is unable or unwilling to carry out the person's functions as a member.'.



Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- (i) Caiff aelodau anweithredol ACC ddiswyddo person fel aelod gweithredol etholedig o ACC drwy roi hysbysiad –
- (a) os yw'r person wedi bod yn absennol o gyfarfodydd ACC am gyfnod hwy na 6 mis heb ganiatâd ACC, neu
  - (b) os yw aelodau anweithredol ACC o'r farn nad yw'r person yn addas i fod yn aelod neu nad yw'r person yn gallu neu'n fodlon cyflawni ei swyddogaethau fel aelod.'.

**Nick Ramsay**

39

Section 6, page 3, line 35, after 'be' at the first place where it appears, insert 'chairperson or'.

Adran 6, tudalen 3, llinell 34, ar ôl 'yn' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder 'gadeirydd ACC neu'n'.

**Nick Ramsay**

40

Section 7, page 4, line 16, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 16, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**Nick Ramsay**

41

Section 7, page 4, line 18, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 17, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**Nick Ramsay**

42

Section 8, page 4, line 25, leave out 'Welsh Ministers on such terms as they' and insert 'National Assembly for Wales on such terms as it'.

Adran 8, tudalen 4, llinell 23, hepgorer 'Weinidogion Cymru ar unrhyw delerau a bennir ganddynt' a mewnosoder 'Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw delerau a bennir ganddo'.

**Nick Ramsay**

43

Section 8, page 4, line 27, after 'by', insert 'the non-executive members of'.

Adran 8, tudalen 4, llinell 25, ar ôl 'gan' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder 'aelodau anweithredol'.



**Nick Ramsay**

44

